







Syniad Mawr

Bargod

Bargoed BIG Idea

Syniad Mawr Bargod

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Dewiswch y STRYD FAWR

Canol Trefi - Mannau Unigryw



Heol Hanbury


Llyfrgell Bargod



Plaza Lowry


Sgwâr Hanbury

Bargod

Bargod, sydd wedi'i leoli yng Nghwm Rhymni, yw'r dref fwyaf gogleddol o'r prif ganolfannau manwerthu.

Dyma'r drydedd dref fwyaf ar ôl y canolfannau isranbarthol Caerffili a Choed Duon a'r fwyaf o'r pedwar canolfan ardal. Mae'r dalgylch ar gyfer y dref yn cynnwys Rhymni, Fochriw, Pontlotyn, Abertyswg, Deri, Tredegar Newydd, Aberbargod a Gilfach, gyda phoblogaeth gyfunol o dros 26,000.

Mae gan y cyn-dref lofaol nifer o fanwerthwyr lluosog, gan gynnwys: Original Factory Shop, Poundworld, Peacocks, Dorothy Perkins, Burtons, Greggs a Subway, yn ogystal ag ystod dda o fusnesau annibynnol bach.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cynnal prosiect adfywio uchelgeisiol ym Margod o'r enw y 'Syniad Mawr'. Mae hyn yn cynnwys nifer o elfennau gwahanol, gan gynnwys y ffordd newydd, gwerth £25 miliwn - Ffordd yr Angel - a adeiladwyd yn 2009 a gorsaf fysiau a chyfleuster parcio a theithio newydd ger yr orsaf drenau bresennol.

Rhan arall o'r 'Syniad Mawr' oedd trosi Eglwys y Bedyddwyr Hanbury i fod yn lyfrgell, uned adnoddau hanes lleol, cyfleuster Cwsmer yn Gyntaf a man addoli. Roedd y prosiect gwobrwyol yn bartneriaeth rhwng y Cyngor a Chymdeithas Tai Unedig Cymru.

Drwy gydol canol y dref mae cynllun tir y cyhoedd cynhwysfawr wedi trawsnewid y dref gan ddefnyddio'r cysyniad o 'gofod a rennir' er mwyn creu amgylchedd siopa cyfoes, sy'n cydbwyso mynediad i gerbydau a dosbarthu nwyddau llawn gyda'r angen am fwy o ryddid i gerddwyr.

Yn olaf, cafodd llwyfandir adwerthu newydd ei adeiladu a siop Morrisons wedi cael ei adeiladu, sy'n cysylltu cynllun manwerthu Plaza Lowry gyda'r stryd fawr bresennol. Mae hyn yn cynnwys wyth uned manwerthu newydd a osodwyd ar sgwâr cyhoeddus newydd, ac mae tenantiaid yn cynnwys Poundworld, Greggs a Subway.

Sgwâr y Royal





Canol Dinas Caerdydd



Bannau Brycheiniog



Bae Caerdydd



Bannau Brycheiniog

© Crown copyright - Visit Wales, all rights reserved

Mae Bargod o fewn pellter gyrru 40 munud o Gaerdydd, Prifddinas Cymru.



Yn y blynyddoedd diwethaf mae Caerdydd wedi dod i'r amlwg fel dinas fywiog gyda chynnig adwerthu cryf, sy'n cynnig amrywiaeth o adwerthwyr lluosog, gan gynnwys: John Lewis, Marks & Spencer, Debenhams, Apple a Victoria's Secret. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan arcedau hanesyddol llawn o adwerthwyr annibynnol a dewis enfawr o fwytai a siopau coffi. Mae Stadiwm y Principality yn meddiannu safle unigryw yng nghanol y ddinas ac yn ogystal â bod yn gartref i Rygbi Cymru, yn lleoliad cyngerdd hen sefydlog.

Milltir o ganol y ddinas yw Bae Caerdydd gyda Chanolfan Mileniwm Cymru a'r Senydd - lleoliad Llywodraeth Cymru. Wedi'i leoli yn uniongyrchol ar lan y dŵr yw Cei'r Fôr-forwyn, sy'n darparu ystod o fariau a bwytai gyda phob un yn edrych dros ddyfroedd Bae Caerdydd.

Mae Bargod hefyd wedi ei leoli 30 munud mewn car o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'r ardal yn cwmpasu 520 milltir sgwâr ac mae'n darparu ymwelwyr gyda dewis o weithgareddau gan gynnwys cerdded, beicio mynydd, dringo creigiau, chwaraeon dŵr a marchogaeth. Mae'r amgylchedd trawiadol a'i ffordd o fyw awyr agored unigryw yn hawdd ei gyrraedd o Goed Duon. Boed goleuadau llachar y brifddinas, neu heddwch a thawelwch y dirwedd naturiol sy'n eich denu, mae Bargod yn lleoliad delfrydol i fwynhau'r gorau o'r ddau fyd.

Rheolwr Datblygu Canol Trefi
Ffôn: 01443 866213 Facs: 01443 866216
e-bost: manwerthu@caerffili.gov.uk • www.caerffili.gov.uk